# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Arweiniol Rheoli Gwastraff WMGN11 Bwrdd Plastr

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Fiona Wheatley |
| **Cymeradwywyd gan:** | Fiona Abbott |
| **Dyddiad Adolygu:** | 09/11/2018 |

| **Nodyn Arweiniol Rheoli Gwastraff NARG11<br>Bwrdd Plastr** | |
|---|---|
| Lleoliad Cynhyrchu | Amrywiol |
| EWC | 17-08-02 |
| Math | Gwastraff a Reolir |
| Dull Gwaredu | Didoli i’w ailgylchu |
| Math o Fin/Sach | **Sgip/Sachau ailgylchu clir** |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwaredu gwastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau cyfanswm y gwastraff a anfonir i safleoedd gwaredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei ddidoli ac y gwaredir arno drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig oni bai nad oes unrhyw ddewis arall.

Yn 2009 pennodd y Gyfarwyddeb Tirlenwi ddiwygiedig na chaniateir cymysgu gwastraff sy'n cynnwys gypswm â gwastraff bioddiraddadwy ar safleoedd tirlenwi bellach. Mae'r newid hwn yn y rheoliadau yn berthnasol i wastraff sy'n cynnwys deunyddiau y gellir eu nodi eu bod ar sail gypswm, er enghraifft: bwrdd plastr, laminiadau thermol, plastrau gypswm wedi'u hatgyfnerthu â gwydr, teils cilfwa a nenfwd.  Sylffad yw gypswm, sef y deunydd crai ar gyfer bwrdd plastr, ond mae’n perthyn i’r dosbarth o ddeunyddiau nad ydynt yn beryglus.


Mae'n rhaid i'r Brifysgol, a chontractwyr a benodir ganddi, ddidoli bwrdd plastr gwastraff i'w ailgylchu dan y rheoliadau newydd.

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

Dylai contractwyr sy'n  ymgymryd â phrosiectau bach fynd â deunyddiau gwastraff o’r safle ar ôl gorffen, a dylent sicrhau bod unrhyw fwrdd plastr wedi'i ddidoli'n gywir. Dylai contractwyr sy'n ymgymryd â phrosiectau mawr ddidoli bwrdd plastr i'w ailgylchu drwy ddefnyddio sgipiau penodol ar gyfer bwrdd plastr ar y safle.

Sylwer: Os tybir bod unrhyw fwrdd plastr wedi'i halogi â deunydd peryglus, cysylltwch â'r Tîm Cynaliadwyedd (estates-waste@abertawe.ac.uk) neu'r Tîm Iechyd a Diogelwch (healthandsafety@abertawe.ac.uk) am gyngor pellach.

## Storio Allanol



Ffigur 1: Sgip caeedig Prifysgol Abertawe

Os oes unrhyw fwrdd plastr gwastraff yn sgil prosiectau bach a wneir gan staff y Brifysgol, dylid ei roi ar wahân mewn sachau clir. Ni ellir rhoi gwastraff bwrdd plastr mewn unrhyw finiau olwyn du ar gyfer deunyddiau ailgylchu na deunyddiau na ellir eu hailgylchu. I gael gwared ar wastraff bwrdd plastr, cyflwynwch gais am waith drwy borth Desg Gymorth y Brifysgol, gan gynnwys côd cost.

## Costau Gwaredu

I holi am gostau cael gwared ar fwrdd plastr, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk.

## Labelu

Gweler y templed

**Am arweiniad pellach, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk**


plasterboard